**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1350
Ein cyf/Our ref EM/01476/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

petitions@senedd.cymru

26 Mehefin 2023

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch penderfyniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gau ward cleifion mewnol Dyfi yn Ysbyty Tywyn dros dro.

Penderfynodd y bwrdd iechyd gau'r ward oherwydd heriau staffio sylweddol yn Ysbyty Tywyn ac Ysbyty Dolgellau, a oedd yn effeithio ar ei allu i gynnal lefelau staffio diogel ar draws y ddau safle.

Er mwyn sicrhau bod y rheini sydd ag angen gofal fel cleifion mewnol yn yr ysbyty yn gallu parhau i gael y gofal angenrheidiol mewn amgylchedd clinigol diogel, gwnaed y penderfyniad i gau'r ward cleifion mewnol yn Ysbyty Tywyn dros dro, a chafodd staff ac adnoddau eu cydgrynhoi yn Ysbyty Dolgellau er mwyn galluogi'r bwrdd iechyd i gynnal diogelwch cleifion a staff yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddefnyddio pob ffordd bosibl i recriwtio staff i'r swyddi y mae angen eu llenwi er mwyn iddo allu rhedeg gwasanaethau i gleifion mewnol ar y ddau safle. Yn y cyfamser, mae rhai staff wedi cael eu symud dros dro i wasanaethau eraill sydd wedi galluogi'r bwrdd i weithredu nifer o ddatblygiadau gwasanaeth newydd ar gyfer cefnogi gofal yn nes at adref a chynyddu capasiti gwasanaethau yn lleol. Mae staff eraill wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth Ystafell Triniaeth yn Ysbyty Tywyn, a gafodd ei agor yn gynharach y mis hwn, ac sy'n cynnig pob math o ofal clwyfau, gan gynnwys y gofal sylfaenol o newid gorchuddion, amlapiadau wlserau coes, ac amlapiadau cywasgu. Bydd y gwasanaeth hwn yn datblygu dros gyfnod o amser i gynnig llawer mwy o driniaethau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er fy mod yn ymwybodol bod y sefyllfa hon yn destun pryder i'r staff a'r gymuned leol, mater gweithredol i'r bwrdd iechyd yw hwn ac ni all Gweinidogion Cymru ymyrryd ynddo.

Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi sicrwydd imi ei fod yn gweithio gyda'i bartneriaid ar fodel gwasanaeth arloesol newydd ar gyfer Tywyn, a fydd yn defnyddio staff sy'n gweithio yn y gymuned ar hyn o bryd yn ogystal â staff a fydd wedi eu lleoli yn yr ysbyty, gyda'r nod cyffredin o adfer y gwasanaeth sydd wedi cau dros dro yn yr ysbyty.

Bues mewn cyfarfod â chynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd, Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn, a Chyngor Tref Tywyn ar 12 Mai, a oedd yn gyfle i'r aelodau fynegi unrhyw bryderon a chlywed yn uniongyrchol gan y bwrdd iechyd ynghylch ei gynlluniau ar gyfer yr ysbyty.

Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi fy sicrhau bod ymarfer ymgysylltu wedi ei gynnal â'r Corff Llais y Dinesydd newydd, sef Llais, a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda chynghorwyr lleol, lle mae'r cynnydd o ran recriwtio staff a datblygu gwasanaethau a chyfleoedd yn cael ei rannu a'i drafod.

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, a bydd yn parhau â'i ymdrechion i recriwtio staff i swyddi gwag er mwyn adfer gwasanaethau cleifion mewnol yn Ysbyty Tywyn mewn modd diogel cyn gynted â phosibl. Bydd yr amserlen ar gyfer ailagor y ward cleifion mewnol yn Ysbyty Tywyn hefyd yn parhau i gael ei hadolygu, a bydd yn cael ei diweddaru i adlewyrchu hynt y broses recriwtio.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth wrth ichi ystyried y ddeiseb.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services